# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 12 Chwefror 2018

Amser: 14.02 - 17.08

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4507

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Neil Hamilton AC<br>Adam Price AC<br>Lee Waters AC |
| Tystion: | Harri Colman, Fabric<br>Christopher Dunn, Voices from Care Cymru<br>Deborah Jones, Voices from Care<br>Kate Lawson, Y Rhwydwaith Maethu<br>Sean O'Neill, Plant yng Nghymru<br>Colin Turner, Y Rhwydwaith Maethu |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Anthony Barrett - Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol<br>Matthew Mortlock |
| Staff y Pwyllgor: | Anthony Barrett<br>Matthew Mortlock<br>Meriel Singleton (Ail Glerc) |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| | Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Sian Thomas (Ymchwilydd) |

## 1 Plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal: Cyfarfod â phlant a phobl ifanc

1.1 Cyfarfu'r Aelodau yn anffurfiol â'r bobl ifanc cyn y sesiynau tystiolaeth.

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

2.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Vikki Howells AC a Rhianon Passmore AC. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2.3 Yn dilyn cais gan y bobl ifanc a oedd yn rhoi tystiolaeth yn eitemau 4 a 5, cytunodd y Cadeirydd i gynnal y sesiynau hyn yn breifat.

## 3 Papur(au) i'w nodi

3.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 4 Plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal: sesiwn dystiolaeth 3

4.1 Cafodd yr Aelodau dystiolaeth gan bobl ifanc o Voices from Care fel rhan o'i ymchwiliad i blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal.

## 5 Plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal: sesiwn dystiolaeth 4

5.1 Cafodd yr Aelodau dystiolaeth gan Harri Coleman, ynghyd â phobl ifanc o Voices from Care, fel rhan o'i ymchwiliad i blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal.

## 6 Plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal: sesiwn dystiolaeth 5

6.1 Cafodd yr Aelodau dystiolaeth gan Kate Lawson a Colin Turner o'r Rhwydwaith Maethu fel rhan o'i ymchwiliad i blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal.

6.2 Cytunodd Kate Lawson i anfon enghreifftiau o arfer gorau o ran mesur effaith maethu o'i phrofiad yn Lloegr.

6.3 Cytunodd Colin Turner i anfon manylion ynghylch sesiynau sydd ar y gweill fel rhan o'r prosiect 'Ten top key principles of social pedagogy'.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

7.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 8 Plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal: trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

8.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 9 Y rhaglen waith: ystyried gohebiaeth a ddaeth i law

9.1 Nododd yr Aelodau y llythyr a bod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu wedi cytuno i gynnal ymchwiliad i gynhyrchu ffilm a theledu, a fydd yn cynnwys edrych ar dryloywder a chyllid grant.

9.2 Cadarnhaodd yr Aelodau y byddent yn awyddus i weld astudiaeth o'r ffeithiau yn unig yn edrych ar y buddsoddiad yn Pinewood, gan eu bod yn teimlo y byddai hyn o ddiddordeb i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a/neu'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu.

## 10 Ofcom: trafod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth drafft

10.1 Trafododd yr Aelodau y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth drafft, gan ei nodi. Awgrymwyd y dylid ystyried bod y Pwyllgor perthnasol yn cynnal gwrandawiadau cyn penodi, ac y dylid adlewyrchu hyn yn yr ymateb i Lywodraeth Cymru.